**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Buffy Williams AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Senedd

senedd.plant@senedd.cymru

22 Rhagfyr 2025

Annwyl Buffy

Diolch ichi am lythyr y pwyllgor ar 1 Rhagfyr yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch cymorth iechyd meddwl amenedigol.

Yn fy llythyr blaenorol, cyfeiriais at yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl o'i strwythurau llywodraethiant a gweithredu mewnol i'w galluogi i fodloni gofynion y *Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol.* Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau ac, o ganlyniad, penderfynwyd disodli'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Amenedigol â Chymuned Ymarfer.

O ran arweinyddiaeth glinigol, mae swyddi arweiniol clinigol y rhaglen bellach yn cwmpasu pob maes iechyd meddwl, gyda rhaglen waith sy'n cyd-fynd â'r strategaeth.

Fel y nodwyd yn fy llythyr ym mis Medi, dyma'r swyddi:

- Seicolegydd clinigol (iechyd meddwl oedolion ac oedolion hŷn, amenedigol, anhwylderau bwyta)
- Nyrs iechyd meddwl gofrestredig (gofal acíwt a gofal mewn argyfwng)
- Seiciatrydd ymgynghorol (gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed)
- Seicolegydd clinigol (therapïau seicolegol).

O ran eich cwestiynau am yr opsiynau a ystyriwyd a'r ymgysylltu a wnaed, y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl fyddai yn y sefyllfa orau i ymateb i'ch ymholiadau. Byddai Ciara Rogers, y cyfarwyddwr cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl, anabledd dysgu a niwroamrywiaeth yn Perfformiad a Gwella GIG Cymru, yn hapus i ddarparu sesiwn friffio i'r pwyllgor. Pe bai hyn yn ddefnyddiol, gall fy swyddfa helpu i wneud y trefniadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth drosglwyddo o'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Amenedigol i'r Gymuned Ymarfer, mae Hayley Thomas, sef prif weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a'r prif weithredwr arweiniol dros iechyd meddwl, wedi ysgrifennu at holl brif weithredwyr GIG Cymru i'w gwneud yn glir bod disgwyl i'r gwaith barhau fel arfer. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i'r llwybrau iechyd meddwl amenedigol, a ddatblygwyd gan y rhwydwaith gweithredu clinigol, barhau i lywio ymarfer.
- Rhaid i bob bwrdd iechyd gynorthwyo Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru i ddarparu mynediad at ofal iechyd meddwl amenedigol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion mewnol.
- Blaenoriaethu bodloni safonau iechyd meddwl amenedigol y Coleg Seiciatreg Brenhinol ac adrodd am y gwaith o'u cyflwyno i Perfformiad a Gwella GIG Cymru bob chwarter. Bydd hyn yn galluogi i unrhyw fylchau gael eu nodi a'u datrys.

O ran yr uned Seren newydd yng Nghaer, rydym yn disgwyl iddi agor yn raddol gan ddechrau'r mis hwn. O ran Uned Gobaith, gallaf gadarnhau mai'r bwriad yw iddi barhau yn Ysbyty Tonna am y dyfodol rhagweladwy.

Yn gywir



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Minister for Mental Health and Wellbeing